
Babell Y Garn Gerlan Madog Nasareth Rehoboth Seion

# Gair o'r Garn

## Cylchlythyr yr Ofalaeth

Seion Rehoboth Nasareth Madog Gerlan Y Garn Babell

Cyfres newydd, rhif 15 Gwanwyn 2011



*Yna arweiniwyd Iesu i'r anialwch gan yr Ysbryd,*
*i gael ei demtio gan y diafol.*

Annwyl ffrindiau,

Ers canrifoedd lawer, mae Eglwys Iesu Grist wedi neilltuo cyfnod penodol i ddiben myfyrdod, gweddi ac ympryd. Yr enw ar y tymor hwnnw yw'r Grawys, sef y tymor o ddeugain niwrnod sy'n arwain at y Pasg, ac sy'n cyfateb i'r cyfnod o ddeugain dydd a deugain nos a dreuliodd yr Arglwydd Iesu yn yr anialwch yn ymprydio ac yn goddef ei demtio gan Satan. Er bod cadw'r Grawys yn hen, hen arfer, prin iawn erbyn hyn yw nifer y Cristnogion hynny sy'n ymprydio a myfyrio fel cynt gan wneud penyd am eu pechodau. Er hynny, mae'r tymor hwn yn cynnig cyfle arbennig i ni ymroi ein hunain i weithgareddau crefyddol, megis gweddïo, myfyrio a darllen deunydd defosiynol, ac i gadw gerbron llygaid ein cof y frwydr fawr honno rhwng Iesu a'r temtiwr yn yr anialwch.

Pwy ohonom na phrofodd demtasiynau yn ystod ei fywyd? Mae cael ein temtio yn rhan o'r natur ddynol; nid oes neb yn cael ei eithrio. Dywed y Parchedig F. B. Meyer (1847–1929), yr efengylydd a'r awdur defosiynol, "Cewch eich temtio cyhyd ag y byddwch fyw, a'r mwyaf agos yr ydych yn byw i Grist, mwyaf yn y byd fydd natur a grym y demtasiwn." Ac yntau'n rhannu ein dynoliaeth yn llwyr, onid oedd hi'n anochel felly y byddai'r Arglwydd Iesu'n cael ei demtio? Medd awdur y Llythyr at yr Hebreaid, "Canys nid archoffeiriad heb allu cyd-ddioddef â'n gwendidau sydd gennym, ond un sydd wedi ei demtio ym mhob peth, yn yr un modd â ni, ac eto heb bechod." (Hebreaid 4:15)

Ystyriwch yr hyn a ddigwyddodd i'r Iesu. Bu'n rhaid iddo ddioddef temtasiynau o natur gorfforol, emosiynol ac ysbrydol, ond yr oedd yn llawer cryfach dyn o fod wedi treulio cyfnod yn yr anialwch, ar "faes hyfforddi" ei Dad Nefol. Mae disgyblaeth o'r fath yr un mor fuddiol i ninnau hefyd. Dywed F. B. Meyer eto, "Mae temtasiwn yn gadael ei ôl arnom yn union fel y mae'r storm yn gadael ei ôl ar y dderwen – mae'n ein gwreiddio – ac fel y mae'r tân yn gadael ei ôl ar y paentiad porslen – mae temtasiwn hefyd yn ein gwneud yn barhaol." Yng ngeiriau Thomas à Kempis, y mynach a'r awdur defosiynol o'r bymthegfed ganrif, "Mae temtasiynau yn aml yn fuddiol i ni, er eu bod yn drafferthus a thrallodus; oherwydd drwyddynt hwy y cawn ein darostwng, ein puro a'n hyfforddi."

Temtasiynau'r anialwch – dyna faes hyfforddiant Duw. Ein cryfhau a wna temtasiynau, cryfhau ein cymeriad a pherffeithio ein personoliaeth.

Mae i demtasiwn hefyd rinwedd arall. Tra cael ei demtio yn yr anialwch y sylweddolodd Iesu beth fyddai ei genhadaeth yn y byd. Dychwelodd yn nerth yr Ysbryd i Galilea gan ddechrau dysgu yn y synagogau. Wedi'i brofiadau yn ymladd y temtiwr, gwyddai Iesu pwy ydoedd a pham y daethai i'r byd. Gwyddai hefyd beth ydoedd bwriadau Duw ar ei gyfer. Gall hynny fod yr un mor wir yn ein hanes ninnau. Gall ein hadegau o frwydro yn erbyn temtasiynau o bob math droi yn gyfleoedd o hunan-ymwybyddiaeth a'n cynorthwyo i ddiffinio ein hamcanion mewn bywyd. Yn fwy na dim efallai, gall profiadau'r anialwch ein gwneud ni y math o bobl y mae Duw am i ni fod, a'r hyn y'n crëwyd ni i fod yn y lle cyntaf, yn debyg iddo ef.

Am hynny, ymddiriedwn yn Nuw i'n cynnal yn nydd y frwydr. Dywed yr Apostol Paul yn y Llythyr Cyntaf at y Corinthiaid, "Y mae Duw'n ffyddlon, ac ni fydd ef yn gadael ichwi gael eich profi y tu hwnt i'ch gallu; yn wir, gyda'r prawf, fe rydd ef ddihangfa hefyd, a'ch galluogi i ymgynnal dano." (1 Corinthiaid 10:13)

> Tyred, Iesu, i'r anialwch,
>     at bechadur gwael ei lun,
> ganwaith ddrysodd mewn rhyw rwydau –
>     rhwydau weithiodd ef ei hun;
> llosg fieri sydd o'm cwmpas,
>     dod fi i sefyll ar fy nhraed;
> moes dy law, ac arwain drosodd
>     f'enaid gwan i dir ei wlad.


*William Williams*

Felly boed i ddisgyblaeth yr anialwch ein paratoi ar gyfer yr Wythnos Fawr, a'r Atgyfodiad sy'n ei dilyn.

Pasg hapus i chi i gyd.

Yr eiddoch yng Nghrist
Wyn Morris (Bugail)

# Tudalen y Plant



| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| m | w | e | l | e | g | n | a |
| a | r | b | t | y | m | u | o |
| i | g | y | d | h | a | l | p |
| r | d | w | d | s | r | f | n |
| n | b | c | e | a | w | s | o |
| m | l | o | b | p | o | i | r |
| w | r | e | r | t | y | u | o |
| c | a | g | e | r | r | a | c |

Dewch o hyd i'r geiriau o hanes y Pasg

Mair
angel
byw
marw
coron
croes
bedd
carreg

Anfonwch eich atebion at y Gweinidog, drwy law eich athro / athrawes Ysgol Sul os dymunwch, erbyn 8 Mai.

Fe fydd gwobr o docyn llyfr gwerth £10 i'r ateb cyflawn cyntaf a ddaw allan o'r het.

Llongyfarchiadau i Shaun Jones, Ysgol Sul y Garn, enillydd tasg y rhifyn diwethaf.

*Manylion Cyswllt y Gweinidog:*
*Y Parch Wyn Morris,*
*Berwynfa, Penrhyn-coch,*
*Aberystwyth, SY23 3EW*
*01970 820939*
*berwynfa@btinternet.com*

**_Cyhoeddiadau'r Ofalaeth, &c_**

22 Ebrill: Oedfa bore'r Groglith yng Nghapel y Garn
am 10 o'r gloch

24 Ebrill: Oedfa gymun yr ofalaeth ar fore'r Pasg
yng Nghapel y Garn am 10 o'r gloch
Casgliad tuag at Gronfa Tirion Lewis

8 Mai: Cymanfa Ganu Unedig Gogledd Ceredigion
yn Seion, Stryd y Popty, Aberystwyth
Cyfarfod y plant am 10 o'r gloch
Cymanfa'r Oedolion am 5.30 o'r gloch
Arweinydd: Dr Rhidian Griffiths

11 Mai: Ymarfer ar gyfer *Dechrau Canu, Dechrau Canmol* yng Nghapel y Garn am 7 o'r gloch

18 Mai: *Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
yn cael ei recordio yng Nghapel y Garn
am 7 o'r gloch

20 Mehefin: Pwyllgor Swyddogion yr Ofalaeth
Festri'r Garn am 7 o'r gloch

3 Gorffennaf: Gŵyl yr ysgolion Sul yng nghanolfan
y Morlan am 2.30 o'r gloch, gyda
Geraint ac Anna Lloyd ac Efan Williams

Mae'r manylion hefyd i'w gweld ar wefan y Garn:
www.capelygarn.org

## *Yr Astudiaeth Feiblaidd*



Cynhelir yr Astudiaeth Feiblaidd bob pythefnos am 2 o'r gloch ar ddydd Mawrth yng Nghapel y Garn.

Byddwn yn dilyn maes llafur yr ysgol Sul, sef *Geiriau Doeth y Beibl*, cyfres o astudiaethau Beiblaidd sy'n canolbwyntio ar Lyfr y Diarhebion a Dywediadau Iesu, gan Elwyn Richards.

Dewch i ymuno a'r grŵp – bydd croeso cynnes i chi.

CYDNABYDDIAETH

Yn dilyn eu profedigaeth drist o golli Vera yn ddiweddar dymuna Bryn a Nerys ac Aled a'r teulu fynegi eu gwerthfawrogiad diffuant o'r caredigrwydd a'r gefnogaeth a ddangoswyd tuag atynt yn eu colled, ynghyd hefyd â'r llu llythyrau a chardiau o gydymdeimlad a dderbyniwyd ganddynt. Mynegir diolch cynnes hefyd am y rhoddion ariannol niferus er cof am Vera a ddaeth i law.

Gwerthfawrogwyd yn arbennig iawn wasanaeth eu Gweinidog, y Parchedig Wyn Rhys Morris, drwy gydol gwaeledd Vera ac am ei arweiniad a'i eiriau o gysur a chymorth, gyda'i gyd-weinidogion, ar ddiwrnod ei harwyl. Diolch hefyd i'r gwasanaethau iechyd am eu gofal tyner hwy dros amser ac i'r ymgymerwr, C Trefor Evans a'i staff, am weithredu'n ystyriol dros gyfnod yr angladd.

*     *     *

Dymuna Wyn a Judith ddiolch yn ddiffuant am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a estynnwyd iddynt yn eu profedigaeth ddiweddar. Diolch am y galwadau ffôn a'r cardiau. Mawr yw ein gwerthfawrogiad.

*Gwasanaeth Gŵyl Ddewi'r Ofalaeth*




Bore Sul, 27 Chwefror, cynhaliwyd gwasanaeth Gŵyl Ddewi Gofalaeth y Garn. Daeth cynulleidfa luosog ynghyd i Gapel y Garn i'r oedfa arbennig dan arweiniad y gweinidog, y Parch Wyn Rhys Morris. Cafwyd darlleniadau gan Rhun a Gwern, gweddïau gan Iestyn a Ffion, a datganiad ar y delyn gan Meinir.

Cyflwynwyd stori Dewi Sant gan blant ysgol Sul y Garn mewn darlleniadau a chyflwyniadau dramatig o amrywiol olygfeydd ym mywyd Dewi, dan gyfarwyddyd Rhodri Llwyd Morgan, Janet Roberts a Rhian Jones-Steele, a chwaraewyd rhan Rhygyfarch yn urddasol gan Dewi Hughes. Yr organydd oedd Brenda Williams.

Trosglwyddwyd £143, sef casgliad yr oedfa, i gronfa Plas Lluest.

# Os Mêts ar y piste!





**Mae'r Bugail yn awyddus iawn i glywed gan bobl ieuainc yr ofalaeth os ydynt yn dymuno dod yn aelodau cyflawn o'r Eglwys. Eir ati wedyn i drefnu Dosbarthiadau Derbyn mewn man canolog, gyda chyd-ddealltwriaeth y rhai a fydd yn barod i'w mynychu. Gwneir trefniadau arbennig ar gyfer y rhai sy'n byw oddi cartre, ac/neu sy'n dilyn cyrsiau prifysgol/addysg bellach.**

### *Hwyl Gwanwyn 2011 Aelodau Os Mêts*

Yn ystod tymor y gwanwyn mae aelodau Os Mêts wedi mwynhau ambell weithgaredd dan arweiniad Efan Williams, Swyddog Plant ac Ieuenctid Menter Gydenwadol Eglwysi Gogledd Ceredigion.

Brwdfrydig iawn fu'r ymdrechion yn y cystadlaethau Wii a Thennis Bwrdd yn y Garn ym mis Ionawr a mwynhawyd noson o ffilmiau yng Horeb, Penrhyn-coch, ddechrau fis Chwefror.

Yna nos Iau, 24 Chwefror, aeth rhai o aelodau Os Mêts – yn cynnwys ieuenctid o Gapeli Bethel Tal-y-bont, y Garn, Capel Madog a Horeb Penrhyn-coch, ynghyd â phobl ifanc o gapeli'r Morfa a Seion, Aberystwyth – ar drip i Wersyll yr Urdd, Llangrannog. Cafwyd llawer iawn o hwyl yn sgio ac yna treuliwyd amser yn y pwll nofio. Cafwyd amser gwerth chweil.

Trefnwyd y trip gan y Swyddog Plant ac Ieuenctid, Efan Williams, dan faner Menter Gydenwadol Eglwysi Gogledd Ceredigion, gyda chymorth grant gan Wasanaeth Ieuenctid Cyngor Sir Ceredigion a'r Cynulliad Cenedlaethol.

Estynnnwyd cyfle i'r ieuenctid i fynd i weld perfformiad Theatr Bara Caws o *Un Nos Ola Leuad* yn Neuadd Tal-y-bont nos Fawrth, 22 Mawrth.

Cynhaliwyd cyfarfod o Bwyllgor Os Mêts nos Fercher, 16 Mawrth, er mwyn cynllunio'r rhaglen ar gyfer tymor yr haf.

Edrychwn ymlaen at yr hwyl yn yr haf!

## *Clasur Anghofiedig*

Mae pob blwyddyn, pob wythnos, pob diwrnod bron, yn ddiwrnod rhywbeth neu'i gilydd. Yn ôl y BBC, *Blwyddyn y Llyfr* yw 2011. Rydym wedi cael llawer o raglenni diddorol am lyfrau ac awduron, ond nid, wrth gwrs, am lyfrau Cymraeg, nac ychwaith, am lyfr Saesneg o Gymru. Felly, dyma *Gair o'r Garn* yn camu i'r adwy.

Cyfieithiad o'r ddeunawfed ganrif gan berson anhysbys o Ladin gwreiddiol y bymthegfed ganrif – nid yw'n swnio fel *blockbuster* nag yw? Eto, mae *Pattrwm y Gwir Gristion*, neu *The Imitation of Christ*, gan Thomas à Kempis, wedi bod mewn print mewn amryw o ieithoedd yn ddi-dor dros bum cant o flynyddoedd. Ac mae'r rheswm yn syml: gyda'i iaith goeth a'i fynegiant clir mae'r llyfr yn ysbrydoli'r darllenydd o'r dudalen gyntaf.

Almaenwr oedd Thomas à Kempis; fe'i ganed ym 1380 a bu farw ym 1471 (ac felly roedd yn gyfoeswr i Dafydd ap Gwilym). Aeth yn fynach ym 1413 ac yn fuan wedyn dechreuodd ysgrifennu *Imitatio Christi*. Mae'n debyg mai dyn tawel, diymhongar ydoedd, ac ni adawodd y mynachdy am weddill ei oes.

I ddechrau, cafodd y llyfr ei ledaenu fel llawysgrif. Argraffwyd fersiwn Saesneg, cyfieithiad o'r Ffrangeg, am y tro cyntaf ym 1503 (ac, felly, lai na hanner can mlynedd ar ôl y llyfr cyntaf i gael ei argraffu erioed). Ni ddaeth y cyfieithiad Cymraeg cyntaf tan 1684, *Dilyniad Christ* gan Hugh Owen o Fôn, ond trosiad llythrennol, braidd yn glogyrnaidd, yw hwn. Ym 1723, ymddangosodd *Pattrwm y Gwir Gristion*, gan, yn ôl y dudalen flaen, *W.M. A.B.* Ni wyddom pwy oedd W.M. Yr oedd yn llenor profiadol ac yn meddu ar eirfa gyfoethog. Mae rhai geiriau yn awgrymu mai gogleddwr ydoedd. Mwy cydnaws ag ysbryd y llyfr, efallai, yw awydd W.M. i gilio yn ôl i'r cefndir a gadael y llwyfan i'w eiriau gwych.

Pam ddylai pob Cristion ddarllen hwn o leiaf unwaith? Ni fyddai'n difetha'r diweddglo i chi os gwnaf ddatgelu'r plot. Yn fras, mae'r llyfr yn esbonio fod bywyd dyn yn hollol ddibynnol ar gariad Duw, ac yn wag ac yn ddibwrpas hebddo. Rhennir y ddadl yn bedair rhan: mae'r ddwy gyntaf yn ceisio tynnu sylw dyn o'r byd materol i ganolbwyntio ar y byd ysbrydol, ac mae'r drydedd a'r bedwaredd ran yn cyflwyno Crist fel yr unig wrthrych gwerth ein sylw a'r cysur mae Ef yn ei gynnig – hyn trwy gwestiwn ac ateb rhwng y disgybl a Christ ei hun. Gellwch feddwl am y cwbl fel *Rhodd Mam* i oedolion, neu'r *Idiot's Guide* i'r bywyd ysbrydol.

Rwyf yn derbyn nad yw llyfr o'r fath ar restr uchaf pob darllenydd, ond peidiwch â throi drosodd eto. Mae hwn yn llyfr o'i gyfnod, ac nid yw, felly, yn gwibio o un uchafbwynt i'r llall, fel mae llyfrau heddiw. Mae iddo natur mwy hamddenol. Mae pob gair yn haeddu ei le. Gall pob brawddeg sefyll ar phen ei hunan, heb dynnu dim oddi ar ei dealltwriaeth na'i synnwyr.* Eto, mae'r cyfan yn llawer mwy na'r darnau unigol. Ac amcan yr awdur sydd i ddiolch am hyn i raddau helaeth. Mae anghenion ei gynulleidfa o'i flaen bob amser. Yn lle cyfieithu air am air, mae'n dweud yn ei ragair: 'yr wyf yn cyfadde ddarfod imi gymmeryd Rhwysg a Rhydd-did i gwttogi y naill Ran ac i helaethu'r llall … Fy unic fwriad … oedd gwneud yr holl waith yn oleu ac yn eglur …' A chafodd lwyddiant rhyfeddol. Cewch fudd mawr trwy ei ddarllen o glawr i glawr, neu gellwch ei agor ar unrhyw dudalen a chael eich ysbrydoli gan ychydig frawddegau. Agwedd arall sy'n codi o fodd W.M. o weithio yw'r gwahaniaeth rhwng *Pattrwm* a chyfieithiadau Saesneg, sydd yn glynu'n fwy ffyddlon i'r gwreiddiol. Mynach pabyddol oedd Thomas à Kempis ac mae'i lyfr yn cynnwys rhai sylwadau na fyddent, efallai, yn cael eu cymeradwyo gan Gymry Protestannaidd y ddeunawfed ganrif. Felly, mae W.M. yn cymryd y cyfle i'w newid ac weithiau i feirniadu syniadau catholigion y Canol Oesoedd, er enghraifft, ar greiriau'r seintiau.

Ni fwriadwyd *Pattrwm* fel llawlyfr ar Cristnogaeth ymarferol, ond fel canllaw sut i feithrin y ffydd sydd yn ysgogi rhywun i weithredu.

Erys un broblem: sut i gael gafael ar gopi? Mae ar gael yn Saesneg yn y gyfres Penguin Classics. Ymddangosodd cyfieithiad W.M. ddiwethaf ym 1908, dan olygyddiaeth H. Elvet Lewis (h.y. 'Elfed'), gydag ailargraffiad ym 1936. Gellwch dreulio llawer awr hapus yn stelcian mewn siopau llyfrau ail-law neu ffeiriau Cymdeithas Bob Owen, ond, os na allwch aros, rwyf yn gwybod i sicrwydd fod o leiaf bedwar copi yn Llyfrgell y Sir, yn y stoc sbâr, os nad yr Adran Fenthyg. Ewch yno'n syth!

Yn wir, mae hwn yn llyfr rhyfeddol.

* Gellwch ddewis *unrhyw* frawddeg ar hap: dyma'r brawddegau cyntaf ar dudalennau 83, 26 a 72 (fy rhif ffôn): 'Yn wîr, nid oes nêb mor anwyl gan Dduw ar Gostyngedic'; 'Na fydd un amser yn goeg nac yn chwerw wrth y *truan cystuddiedig*, eithr bydd addfwyn a llaraidd wrtho, fel y 'chwennychit i eraill fôd wrthi' tithe, pe bait 'yn yr ûn fath Gyflwr'; ac ' Y mae'r Gwr cyfion a fo yn wastad yn myfyrio am Angau a Dioddefaint Jesu Grist yn cael llawnder o bob Diddanwch yn ei fynwes ei hûn'. Onid oes deunydd myfyrdod oes yn y tair brawddeg hyn yn unig?

*John Leeding*

*'Da yw moliannu yr Arglwydd'*

## *Cymanfa Ganu Gogledd Ceredigion*

***yng Nghapel Seion, Stryd y Popty, Aberystwyth***
***Dydd Sul, 8 Mai 2011***

***Cyfarfod y plant am 10 o'r gloch***
***Cymanfa'r oedolion am 5.30 o'r gloch***

***Arweinydd: Dr Rhidian Griffiths, Aberystwyth***

***Trefn y Rihyrsals***
***Bydd pob rihyrsal yn dechrau am 7 o'r gloch***

| | | |
|---|---|---|
| Nos Fercher | 23 Mawrth | Bethel, Aberystwyth |
| Nos Fercher | 30 Mawrth | Bethel, Tal-y-bont |
| Nos Fercher | 6 Ebrill | Y Morfa, Aberystwyth |
| Nos Fercher | 13 Ebrill | Horeb, Penrhyn-coch |
| Nos Fercher | 20 Ebrill | Y Garn, Bow Street |
| Nos Fercher | 4 Mai | Seion, Aberystwyth |




Recordir dwy raglen yn y gyfres *Dechrau Canu, Dechrau Canmol* nos Fercher, 18 Mai yng Nghapel y Garn am 7 o'r gloch.

Bydd ymarfer ar gyfer y recordiad nos Fercher, 11 Mai am 7 o'r gloch.

Yr arweinydd fydd Alan Wynne Jones

Croeso cynnes i bawb – byddem yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth

**Ebrill**

*Blaenor y Mis: Alan Wynne Jones*

*I gyfarch wrth y drysau: Vernon Jones / Erddyn James*

**3** Parch. Richard Lewis
Parch. Judith Morris
Oedfa'r bore yn Noddfa; oedfa'r hwyr yn y Garn

6 Cwrdd Chwiorydd y Garn am 2.30 o'r gloch
'Halen' – Llinos Dafis a Meinir Lowry

**10** Delyth Morgans
Bugail

**17** *Sul y Blodau*
Lyndon Lloyd



22 Oedfa bore'r Groglith
dan arweiniad y Bugail am 10 o'r gloch



**24** *Sul y Pasg*
Oedfa Gymun yr Ofalaeth am 10 o'r gloch
Casgliad tuag at Gronfa Tirion Lewis



Wrth ddathlu atgyfodiad Crist y Pasg yma, diolchwch am y rhai sy'n gweithio dros heddwch ar draws y byd.

Grist Atgyfodedig, Arglwydd Bywyd,
Helpa ni i symud maen ein hunanoldeb a'n llesgedd
er mwyn i fywyd newydd godi
lle bynnag y mae cariad a gobaith yn cael eu croeshoelio;
Boed i ni fyw ffydd dy Basg di
a bod yn gyfryngau gwyrth dy atgyfodiad i'r byd.

(Cyfri'ch Bendithion 2011, o wefan Cymorth Cristnogol)

Llongyfarchiadau calonnog:

i Ian ac Ann Elias (Caergywydd gynt) ar enedigaeth mab bach, Tomos Cai, ŵyr i Mrs Ray Evans, Maes Ceiro;

i Elfyn ac Anna Jones, Dolau, ar enedigaeth merch fach, Gwenno Elfyn, ar 20 Chwefror, chwaer i Lois Elfyn ac wyres i Mrs Liz Jones, Maes Ceiro;

i Mrs Gweneth Lloyd Jones, Lasynys, ar ddod yn nain i Daniel Ray, mab bach Huw a Leonie Lloyd Jones, a aned ar 2 Mawrth;

i'r Barch. Judith Morris ar ennill gradd M.Th. o Brifysgol Bangor;

i Glesni Morgan ar ennill y gadair yn Eisteddfod Ysgol Rhydpennau.

***Tysteb i Ian a Gwen Cole***

Bwriedir cyflwyno tysteb i Ian a Gwen Cole ar eu hymddeoliad o'u gwaith fel gofalwyr y Garn ddiwedd Mawrth – a hynny ar ôl cyflawni'r gwaith am gyfanswm o 24 o flynyddoedd.

Os hoffech gyfrannu tuag at y dysteb, a fyddech cystal â rhoi eich cyfraniad i'r Trysorydd, Mrs Mary Thomas, Tŷ Clyd, cyn diwedd Ebrill, os gwelwch yn dda.

Diolch am eich cydweithrediad,

Swyddogion y Garn

## Mai

*Blaenor y Mis: Erddyn James*

*I gyfarch wrth y drysau: Alan Wynne Jones / Eddie Jenkins*

**1** Parch. Pryderi Llwyd Jones

**8** Cymanfa Ganu Unedig Gogledd Ceredigion
yng Nghapel Seion, Stryd y Popty, Aberystwyth
Cyfarfod y plant am 10 o'r gloch
Cymanfa'r oedolion, dan arweiniad Dr Rhidian Griffiths, am 5.30 o'r gloch

11 Ymarfer ar gyfer *Dechrau Canu, Dechrau Canmol* am 7 o'r gloch

**15** Oedfa Cymorth Cristnogol dan arweiniad y Bugail am **<u>10.30 o'r gloch</u>**
Cinio Bara a Chaws i ddilyn – croeso cynnes i bawb
Casgliad tuag at Gymorth Cristnogol

Oedfa gymun dan arweiniad y Bugail am 5 o'r gloch

18 Cwmni Avanti yn recordio
*Dechrau Canu, Dechrau Canmol* am 7 o'r gloch
Croeso cynnes i bawb

20 Pwyllgor Swyddogion y Garn am 7 o'r gloch

**22** Parch M J Morris (bore)
Oedfa'r hwyr i'w threfnu

**29** Parch Eifion Roberts

## Mehefin

*Blaenor y Mis: Vernon Jones*


*I gyfarch wrth y drysau: D Bryn Lloyd / D Elystan-Morgan*

**5** Parch. Richard Lewis
Siôn Meredydd
Oedfa'r bore yn Noddfa; oedfa'r hwyr yn y Garn

**12** *Sul y Pentecost*
Parch Goronwy Prys Owen

**19** Bugail
Oedfa gymun yn y bore:
Oedfa'r hwyr yn ysgoldy Bethlehem, Llandre

**26** Parch J. E. Wynne Davies



## *Llanw ’11: 25–9 Ebrill*

Gwŷl i ddod â Christnogion ledled Cymru at ei gilydd er mwyn dathlu a dyfnhau ein perthynas gyda’r Duw byw yw Llanw. Fe fydd yna gyfle i gymdeithasu, i ddysgu ac i addoli gyda’n cyd-Gristnogion. Mae’r ŵyl ar gyfer pawb sydd rhwng 9 awr a 900 mlwydd oed, does dim esgus dros beidio dod! Dewch i fwynhau!

Cynhelir oedfa bob bore a phob nos, ac fe fydd cyfle i fanteisio ar gyfleusterau Canolfan Wyliau Quay West, Cei Newydd, yn ystod y dydd, mynychu seminarau ar bynciau amrywiol neu fynd am dro i ymweld â llwybrau a phentrefi prydferth arfordir sir Aberteifi. Wedi’r oedfa nos bydd cyfle i ymuno mewn addoliad anffurfiol pellach neu gyfle i ymlacio a chymdeithasu dros baned o de.

Am ragor o fanylion, ebostiwch: ymholiadau@llanw.org

*Cynhadledd Cristnogaeth 21*

Dydd Sadwrn, 21 Mai 2011

yng Nghapel Salem, Treganna, Caerdydd

10.30 tan 4 o’r gloch

Cadeirydd: Y Parch John Gwilym Jones

Prif siaradwr: Dave Tomlinson –
ficer, awdur y gyfrol *The Post-evangelical*
a sefydlydd mudiad Holy Joes

I gofrestru, ebostiwch: gwefeistr@cristnogaeth21.org,
ffoniwch 07900 491257, neu lawrlwytho ffurflen a’i hanfon at:
Cristnogaeth 21, 87 Maes-y-sarn, Pentyrch, Caerdydd CF15 9QR

## *Pasg Hapus o Sain Ffagan*



Fe fyddwn ni'n dathlu'r Pasg yn Eglwys Teilo Sant, Sain Ffagan, mewn ffordd wahanol iawn eleni. Ers i'r eglwys gael ei symud o Bontarddulais, a'i hailgodi yn yr Amgueddfa, mae grwpiau o amrywiol enwadau wedi ymuno â ni i gynnal gwasanaethau yno. Dyma'r tro cyntaf, fodd bynnag, i ni wahodd Tuduriaid hefyd. Bydd Ruth Goodman, sydd i'w gweld ar y rhaglenni *Edwardian Farmhouse* a *The One Show*, yn dod â grŵp o Duduriaid i fyw ar y safle ym mis Ebrill.

Fe fyddan nhw'n cysgu yn nhŷ neuadd bychan Hendre'r Ywydd Uchaf, yn ail-greu'r hen ffordd (Duduraidd) Gymreig o Fyw. Rydym ni, fodd bynnag, yn ofalus i beidio â 'chwarae addoli', felly bydd yr eglwys ei hun ar agor i unrhyw un fynd yno i ymweld neu i fyfyrio.



Bydd y Tuduriaid i'w canfod yn yr iard o amgylch yr eglwys, lle byddant yn rhannu bwyd a diod, yn canu, ac efallai hyd yn oed yn chwarae Cnapan, yn ôl yr arfer yn y cyfnod. Bryd hynny, roedd yr eglwys yn ganolfan gymunedol, yn ogystal ag un ysbrydol, ac yn debyg o fod yn brysur – a swnllyd – iawn ar fore Sul. Rydym ni'n awyddus i geisio ail-greu awyrgylch dyddiau gŵyl y gorffennol ar draws safle'r Amgueddfa, a Sul y Pasg fyddai'r pwysicaf o'r rhain yn oes y Tuduriaid.



Roedd credoau pobl Cymru, bum can mlynedd yn ôl, yn cael eu hadlewyrchu yng nghalendr gwaith a natur, yn ogystal â'r Beibl. Pasg yw'r cyfnod pan oedd yr elfennau hyn ar eu hamlycaf, neu mewn cynghanedd. Am fod raid i bawb fynd i'r eglwys yn y cyfnod hwn, byddai amryw o bethau'n digwydd yno, yn ogystal â'r Offeren Ladin.

Er nad oedd y Beibl ar gael yn Gymraeg, roedd pobl Cymru gystal ag unrhyw wlad arall yn Ewrop am ddarllen lluniau. Dyma oedd y cyfrwng mwyaf poblogaidd ar gyfer trosglwyddo syniadau – a'r wasg fecanyddol newydd yn helpu'r straeon a'r gwersi oedd ynghlwm â'r lluniau i symud ar draws Ewrop. Roedd straeon y seintiau, a hanes y Pasg yn bennaf, yn rhan o fyfyrdod ac addoliad pobl, tua 1520. Un peth sydd wedi ein syfrdanu wrth weithio ar ail-greu murluniau o'r cyfnod yw fod cymaint o dystiolaeth sy'n dangos ein bod ni yng Nghymru yn deall negeseuon a straeon y Beibl, er bod y gwasanaeth yn Lladin yr adeg honno. Rydym ni'n gobeithio bod yr eglwys yn Sain Ffagan, yn ogystal â Chapel Pen-rhiw, yn llefydd delfrydol i archwilio ein credoau a'n gorffennol: yr hyn sy'n gyffredin i ni, yn ogystal â'r hyn sy'n wahanol rhyngom. Gobeithio y gwelwn ni chi yno'n fuan.

*Sara Huws*

Apêl Cartref Cariadus 2011

# Hmangaihna In

Home of Love Appeal 2011

Yn ystod 2011, mae Gwasanaeth Plant ac Ieuenctid Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn codi arian tuag at gartref plant amddifad Hmangaihna In ym Mizoram, India.  Y nod yw £20,000.

**Ond sut fydd yr arian yn cael ei wario? Dyma sydd gan arolygwr y cartref, Lalhriatpuii, i'w ddweud.**

"Mae Hmangaihna In yn gartref plant amddifad a sefydlwyd ym 1986 gan Eglwys Bresbyteraidd India ym Mizoram, gogledd-ddwyrain India.

"Mae lle yn Hmangaihna In i hyd at 50 o fabanod. Rydym yn rhoi blaenoriaeth i fabanod sydd wedi colli eu mamau, ond mae lle hefyd i blant y mae eu mamau yn dioddef o afiechydon difrifol fel TB a chanser. Mae hyd yn oed plant o'r tu allan i Mizoram yn cael gofal – does dim cyfyngiad o ran man geni, cast na chrefydd. Mae'r plant dan 4 blwydd oed a phan maent yn cyrraedd eu pedair mae disgwyl i'w tylwyth fynd â nhw yn ôl at eu teuluoedd.

"Yn y gaeaf, mae'r tymheredd ym Mizoram yn disgyn i tua 9–12 °C. Pan mae'r tywydd yn oer iawn, rhaid cynhesu'r adeilad gyda thân golosg gan nad oes gwres canolog. Mae hyn yn beryglus i'r plant ac mae'n afiach."

**Yr angen: gwres canolog**

"Mae Hmangaihna In wedi'i leoli yn Durtlang, ar ben un o fryniau serth Mizoram. Mae'n amhosibl cludo dŵr i fyny'r bryn mewn pibelli ac mae'n ddrud i brynu dŵr, felly mae'r cartref yn ddibynnol ar ddŵr glaw. Ond does dim digon o danciau dŵr i storio dŵr glaw ar gyfer y flwyddyn i gyd. Felly mae llawer o'r gyllideb yn cael ei gwario ar brynu dŵr.

**Yr angen: tanc dŵr newydd**

"Mae llawer o'r dŵr yn cael ei ddefnyddio i olchi dillad y plant. Ond mae ein peiriant golchi yn fach a rhaid sychu dillad o gwmpas tân. Mae hyn yn anodd ac yn beryglus, felly rydym angen peiriant golchi mawr a sychwr."

**Yr angen: peiriant golchi a sychu**

"Mae'r plant wrth eu boddau yn chwarae a chael hwyl y tu allan. Ond does dim offer chwarae fel si-so neu siglen. Byddai'n wych cael cyfleusterau o'r fath ar gyfer ein plant."

**Yr angen: cyfleusterau chwarae**

*Mae aelodau ysgol Sul y Garn yn bwriadu trefnu gweithgaredd i godi arian tuag at yr apêl uchod – a byddent yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth. Manylion i ddilyn.*

### *Teithiau Cerdded Taith Dewi Sant*

Mae Pwyllgor Taith Dewi Sant yn trefnu dwy daith gerdded yn ystod yr haf eleni, sef Taith Mari Jones o Lanfihangel-y-Pennant i'r Bala a thaith y Crynwyr yn ardal Dolgellau.

Bydd Taith y Crynwyr yn cael ei chynnal ddydd Sadwrn, 7 Mai, a Thaith Mari Jones ddydd Gwener a dydd Sadwrn, 3 a 4 Mehefin. Mae croeso cynnes i bawb ymuno â'r daith – pobl ifanc yn arbennig. Bydd mwy o fanylion ar gael yn fuan.

### *Rehoboth*

Cronfa ymchwil y galon Cymru

gweithio dros galonnau cymru

Cynhaliwyd Bore Coffi yn festri Rehoboth bore Sadwrn, 26 Chwefror, at gronfa Ymchwil y Galon. Agorwyd y bore gan y Cynghorydd lleol, Ellen ap Gwynn, ac esboniodd pam y mae'r achos mor bwysig iddi, gan fod ei thad wedi marw o'r clefyd pan oedd Ellen yn ifanc iawn. Diolch i bawb a ddaeth i gefnogi ac am eu haelioni.

Hyd yn hyn, mae'r swm a gasglwyd wedi cyrraedd £630.

## *Yr Ordeinio Cyntaf yn 1811*

Eleni rydym yn dathlu dauganmlwyddiant yr Ordeinio cyntaf gan y Methodistiaid Calfinaidd. Am dri chwarter canrif cyn hynny, ers dechrau'r Diwygiad Methodistaidd, roeddent yn dal i fod yn aelodau o'r Eglwys Wladol, sef Eglwys Loegr ar y pryd. Ymhlith y to cyntaf o arweinwyr roedd nifer o wŷr ordeiniedig yn yr eglwys honno, a hefyd ceid offeiriaid plwyf ar draws Cymru a oedd yn llawn cydymdeimlad â'r mudiad newydd. Yn ystod y ddeunawfed ganrif dechreuwyd adeiladu capeli ar wahân i'r eglwysi plwyf, ond arferai'r Methodistiaid fynychu'r eglwysi er mwyn cyfranogi o'r Cymun a chael bedyddio eu plant. Eithr erbyn dechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg roedd eu seiadau wedi amlhau'n fawr a nifer yr offeiriaid wedi mynd yn rhy fychan i ateb yr alwad gynyddol am rai cymwys i weinyddu'r sacramentau iddynt. Clywid cri gyson yn y cyfnod hwn ar i'r mynych bregethwyr lleyg gael eu neilltuo i waith y weinidogaeth i gynorthwyo'r offeiriaid lle gellid eu cael.



Ond cododd anghytundeb ymhlith arweinwyr y Methodistiaid ynglŷn â'r holl fater hwn. Roedd Thomas Charles o'r Bala, prif arweinydd y mudiad erbyn y cyfnod hwnnw, ac yntau ei hun mewn urddau eglwysig, yn arbennig yn bendant yn erbyn caniatáu hynny. Arweinydd arall a ddaliai wrth yr un farn oedd clerigwr arall, David Jones, Llangan, un arall o'r diwygwyr cynnar. Ond cymaint oedd yr alwad am symud ymlaen i ordeinio eu gweinidogion eu hunain fel bod Thomas Charles wedi sylweddoli nad oedd modd iddo atal y llifeiriant mwy. Gorfodwyd ef gan ddadleuon Thomas Jones, Dinbych, ac eraill, a chan ymddygiad heriol Thomas Jones ac eraill hefyd oedd yn gweinyddu'r sacramentau yn barod, a chan ddymuniadau taer y seiadau a'r cyrddau misol, i fynd ymlaen i ordeinio nifer o'r pregethwyr a thorri'n rhydd oddi wrth Eglwys Loegr. 'Pe gweithredai'n wahanol fe wyddai yr arweiniai hynny i rwyg yn y Corff, a dyna'r peth olaf y dymunai ei weld. Ac wedi iddo ddod i'r penderfyniad ni throdd ei wyneb yn fyth yn ôl,' meddai ein prif hanesydd am y cyfnod, Gomer M. Roberts.

Mae’n debyg mai cyfarfod o Sasiwn y Gogledd yn y Bala ym Mehefin 1810 a drodd y fantol yn ei hanes. Gyda llaw, daliai David Jones, Llangan, i wrthwynebu, ond bu farw yntau mis Awst 1810. Felly, digwyddodd yr ordeinio cyntaf yn y Gogledd yn y Bala, 19–20 Mehefin 1811, ac yn y De yn Llandeilo, 7–8 Awst. Thomas Charles oedd yr unig offeiriad yn Eglwys Loegr i gymryd rhan yn yr ordeinio yn y Bala, ond roedd tri offeiriad yn cymryd rhan yn Llandeilo. Dewiswyd y brodyr a ordeiniwyd i gynorthwyo’r offeiriaid yn y gwahanol siroedd. Ymhlith y rhai a ordeiniwyd yr oedd Thomas Jones, Dinbych; David Charles, Caerfyrddin; John Elias o Fôn, ac Ebenezer Richard, Tregaron: un ar hugain ohonynt i gyd, wyth yn y Gogledd a thri ar ddeg yn y De. Nodwn hefyd fod nifer o offeiriaid yr eglwys yn y De wedi cefnu ar y Methodistiaid wedi’r ordeiniad.

Felly, meddai Gomer Roberts: ’Ffurfiwyd Corff eglwysig newydd yng Nghymru, a hwnnw’n Gymreig nid yn unig o ran ei darddiad ond o ran ei naws a’i ysbryd hefyd. [Thomas Charles] oedd pensaer ei enwad, a phan fu farw yn 1814 ’roedd yr adeilad yn gadarn a diogel.’

Yn y blynyddoedd canlynol aed ymlaen i ordeinio ychwaneg o ddynion i’r weinidogaeth ac yn nes ymlaen, o dan ddylanwad Lewis Edwards o Ben-llwyn, mabwysiadwyd y drefn Bresbyteraidd o ran trefn eglwysig.

Bellach, wrth edrych yn ôl, gallwn ddathlu’r ffaith bod nifer fawr o wŷr a gwragedd erbyn hyn wedi’u hordeinio i weinidogaeth y Gair a’r Sacramentau yn ein plith. Mae ein dyled yn enfawr iddynt am eu gwasanaeth didwyll a diflino dros ddwy ganrif o amser. Ein gofid pennaf heddiw yw mai ychydig iawn yw nifer y rhai sy’n eu cynnig eu hunain i’r weinidogaeth hon; yn wir, wynebwn yr un broblem ag a wynebodd y Tadau Methodistaidd ddwy ganrif yn ôl, sef prinder rhai cymwys i weinyddu’r sacramentau yn ein plith, ond yn wahanol iddynt hwy nid oes rhagolwg ar hyn o bryd bod gennym gyflenwad o rai a fydd yn cyflenwi’r angen am weinidogaeth gyson.

O.N. Wrth lunio’r nodyn hwn pwysais yn drwm ar waith Gomer M. Roberts a’i bennod ddiddorol ‘Ymwahanu oddi wrth Eglwys Loegr’ yn yr ail gyfrol o *Hanes Methodistiaeth Calfinaidd Cymru* (1978).

*John Tudno Williams*





## *Cymdeithas Lenyddol y Garn*

I gloi'r tymor am eleni, nos Wener, 11 Mawrth 2011, cynhaliwyd 'Cyfarfod Bach' yn ysgoldy Bethlehem, Llandre. Yn dilyn gwledd o gawl a baratowyd gan y pwyllgor, aeth y beirniad, Mr Tegwyn Jones, ati i gloriannu'r cyfansoddiadau niferus a dderbyniwyd i'r cystadlaethau, a mwynhawyd noson hwyliog a chartrefol.



Dyma flas o'r cyfansoddiadau buddugol:

*Brysneges ar y llythyren 'M'*:

Mae maeth mewn menyn meillion mis
Mai medd Miriam – mwynhewch!
(Gwynant Evans)

'Maddau' medd mab Mair.
(Gaenor Hall)

*Brawddeg ar y gair T-A-I-G-W-Y-N-I-O-N*:

Tiwnisia, Aifft, Iran – gwledydd wrthryfelodd yn nerthol i orfodi newid.
(Mary Thomas, Llandre)

*Pennill yn cynnwys y llinell: 'O na bawn yn gefnog, gefnog'*:

O na bawn yn gefnog, gefnog,
Ac fel cantor yn fyd-enwog,
Canu yn yr Eidal heno,
Fory draw yn San Ffransisco.

(Gaenor Hall)

Enillwyr eraill oedd: Bet Evans, Vernon Jones, Mary Thomas, Tŷ Clyd ac Eddie Jenkins.

Trosglwyddwyd swm o £68, sef elw'r noson, i Ffagl Gobaith.

## Walter Wink

Mae gennyf broblem – a phwy sydd heb broblem? Fel mae'n digwydd, yr un broblem oedd gan Paul – a dyna'r unig debygrwydd rhyngom, dybiaf i. Yn ei lythyr at y Rhufeiniaid, Pennod 7, mae Paul yn ysgrifennu: 'Ni allaf ddeall fy ngweithredoedd, oherwydd yr wyf yn gwneud, nid y peth yr wyf yn ei ewyllysio, ond y peth yr wyf yn ei gasáu.'

Mae'r tensiwn rhwng yr ewyllys a'r natur gynhenid yn treiddio i bob agwedd o fywyd, ond mae wedi peri trafferth fawr i mi mewn un maes yn arbennig, sef heddychiaeth. Rwyf wedi bod yn heddychwr o argyhoeddiad ers i mi gwblhau fy ngwasanaeth milwrol (y paradocs yw, mwynheais fy nghyfnod yn y llu awyr – yn helpu'r Llynges Frenhinol i chwarae 'cops and robbers' yn yr awyr uwchben sir Benfro).

Er bod fy argyhoeddiad yn tynnu un ffordd, mae gennyf natur sy'n tueddu i fod yn ymosodol ac yn tynnu'r ffordd arall. Nid yw'n gwneud synnwyr bod yn heddychwr sy'n rhyfela ar bapur, ar lafar ac yn ei galon. Un o brif nodweddion Cristnogaeth yw cysoni cariad Crist ym mhob agwedd o fywyd. Fy methiant i wneud hyn yw'r broblem sydd gennyf yma.

Pan oeddwn yn fyfyriwr yn y pedwardegau gwnaeth y sefydliad Anglicanaidd gyrch yn y brifysgol i ddenu myfyrwyr at y ffydd. Darparwyd gwasanaethau, grwpiau trafod a chyfle i godi problemau personol gydag esgob. Manteisiais ar y cyfle i drafod heddychiaeth gyda'r esgob, ond chafodd y myfyriwr anaeddfed, dibrofiad, diniwed, fawr o drugaredd gan yr awdurdod esgobol. Yn hytrach na gwrandawiad llawn cydymdeimlad, cefais lond pen o ddiwinyddiaeth y Rhyfel Cyfiawn (er nad oedd sôn am y cyfiawnder na chafodd plant diniwed Hiroshima, Nagasaki a Dresden). Darganfûm wedyn fod yr esgob wedi ennill y M.C. (Y Groes Filwrol) am ymladd yn yr Ail Ryfel Byd. Dros y blynyddoedd ers hynny rwyf wedi bod yn ysglyfaeth i'r tensiwn rhwng heddychiaeth argyhoeddedig a thueddiadau ymosodol cynhenid. Ond yn ddiweddar daeth llygedyn o weledigaeth trwy ddarllen llyfr *The Powers That Be* gan y diwinydd Americanaidd Walter Wink.

I Walter Wink, nid i'r unigolion yn unig mae drwg yn perthyn, ond hefyd i sefydliadau mawr, nid yn unig yn eu bodolaeth corfforol ond hefyd yn eu hethos mewnol – eu hysbrydolrwydd. Ei enw ar y corfforaethau a'r cwmnïau yma yw 'Y Pwerau Sydd Ohoni' (The Powers That Be). I drawsnewid y pwerau yma mae angen wynebu eu ffurf mewnol yn ogystal â'u ffurf allanol. Sut mae gwneud hynny gyda phwerau rhyfelgar? Mae Wink yn gwbwl ddigyfaddawd yn ei ateb. Nid yw ffordd Iesu yn goddef ymateb treisgar. Ni ddylem ateb trais gyda thrais. Ar y llaw arall, nid yw ffordd Iesu yn gofyn i ni fod yn daeog yn wyneb trais. Mae angen gwrthwynebu trais heb ei adlewyrchu. Mae angen gwrthsefyll trais heb ei efelychu. Mae angen dirymu'r treisiwr heb ei ddinistrio.

Mae'n debyg y byddai nifer fawr ohonom yn cytuno â'r egwyddorion yma ond yn gofyn y cwestiwn 'Sut?' Sut allwn ni weithredu i ddirymu'r treisiwr ac ar yr un pryd geisio'i newid a'i achub? Tybed a allwn ddysgu oddi wrth ddulliau dysgu athrawon yn yr ystafell ddosbarth? Pan fydd disgybl yn camymddwyn,

y peth cyntaf i'w wneud yw atal y camfihafio ac yn syth wedyn cynnig gweithred amgen sydd yn fwy derbyniol, a'i gwobrwyo. Ond sut mae atal y camfihafio neu'r trais yn y cyswllt yma? Un dacteg bwerus yw gwneud yn siŵr nad yw trais yn talu'r ffordd i'r treisiwr. Mae ennill mantais trwy ddefnyddio grym yn atgyfnerthol, mae'n cryfhau'r tueddiad i ddefnyddio'r un dacteg eto. Ar y llaw arall, os yw'r canlyniad i drais yn llai manteisiol, mae'r tueddiad treisiol yn gwanhau. Un nodwedd o'r Pwerau Sydd Ohoni yw eu hunanbwysigrwydd, a dyna eu man gwan. Does dim byd mwy effeithiol i ddirymu trais, yn ôl Wink, na'i ddychanu. Dyma ffordd effeithiol o sicrhau nad yw'n llwyddo. Roedd Iesu yn deall y seicoleg yma yn iawn ac mae Ei ddefnydd ohono wedi ei gofnodi sawl gwaith yn y Beibl.

'Os bydd rhywun yn dy daro ar dy foch dde, tro'r llall ato hefyd.' Mae'r esboniad, yn ôl arferion yr oes, yn gymhleth. Yn fyr, trwy gynnig y foch arall, mae'r dioddefwr yn tanseilio'r ymdrech i'w ddiraddio ac yn hawlio cydraddoldeb. Mae wedi dirymu bwriad y treisiwr. Fel y dywedodd Ghandi, 'The first principle of nonviolent action is that of non co-operation with everything humiliating.'

'Os bydd rhywun yn dy orfodi i'w ddanfon am un filltir, dos gydag ef ddwy.' Roedd gan awdurdodau milwrol Rhufain yr hawl i orfodi pobloedd caeth i gario paciau'r milwyr. Yn amal, pan oedd milwyr yn ymddangos ar y gorwel, byddai'r pentrefwyr i gyd yn ffoi er mwyn osgoi'r orfodaeth yma. Ond, fel gyda phob awdurdod milwrol, roedd biwrocratiaeth yn perthyn i bob rheol. Roedd gorfodi cario pac am fwy nag un filltir yn torri'r côd milwrol a'r gosb i'r milwr fyddai cael ei fflangellu. Felly, nid bwriad i helpu'r gelyn oedd y gorchymyn i fynd yr ail filltir ond creu penbleth iddo. Dyma'r ffordd i danseilio biwrocratiaeth ormesol. Dyma'r ffordd i bobl brotestio yn erbyn gormes, i'w niwtraleiddio ac i adennill hunan-barch. Ni ddylsem wahanu'r dacteg yma oddi wrth y gorchymyn i garu ein gelynion, ond ni ddylsai cariad fod yn daeog ychwaith. Mae'r cynnig o gario'r pac yr ail filltir yn tanseilio'r hyder sy'n rhan annatod o ormes a thrais. Yn y cyflwr ansicr yma mae'r treisiwr yn fwy agored i ymateb amgen – mae cariad brawdol, sef rhan o gariad Crist yn cael cyfle.

Er bod pob dameg yn y Beibl wedi'i hangori mewn cyfnod hanesyddol, mae'r egwyddor sydd y tu ôl i'r damhegion yn siarad yn glir dros y canrifoedd. I fi, mae dehongliad Walter Wink o heddychiaeth yn help i gysoni argyhoeddiad ar un llaw, gyda'm natur sy'n tueddu i fod yn ymosodol ar y llaw arall. Mae hyn yn debyg i'r berthynas rhwng strategaeth a thacteg. Y strategaeth yw dod â chariad Crist i'r byd, y dacteg yw peidio â bod yn daeog o flaen trais ond defnyddio ein gallu i danseilio hyder y treisiwr, i greu ynddo ansefydlogrwydd meddwl, i godi penbleth ynddo. Dyma beth sy'n agor y ffenestr i golomen heddwch.

Rwy'n ofni nad wyf wedi gwneud cyfiawnder ag eglurder syniadau Wink. Yr unig ffordd, efallai, yw i chi ddarllen y llyfr eich hun – mae'n agoriad meddwl.

Walter Wink, *The Powers That Be* (Cassell, Doubleday, 1998)

*Eric Hall*

*Beibl.net*

Wyddoch chi beth sydd i'w weld ar wefan beibl.net?

Cyfieithiad llafar, syml o'r Testament Newydd a llu o adnoddau gwahanol i eglwysi.

Ar hyn o bryd, mae'r Gobaith i Gymru, sy'n cynnal y wefan, yn gweithio ar fersiwn llafar, syml o'r Hen Destament, a bydd rhai o'r llyfrau hynny'n ymddangos ar www.beibl.net yn ystod 2011.

Mae'r gwaith yn dibynnu ar ewyllys da pobl Dduw, a rhoddion gan unigolion ac eglwysi. Os hoffech chi ddangos eich cefnogaeth, anfonwch at:

Gobaith i Gymru
15 Maes Fioled
Yr Eglwys Newydd
Caerdydd
CF14 1HT
029 2062 3513

E-bost: trefnydd@gobaith.org

*Swyddogion yr Ofalaeth*

*Cadeirydd*: Mrs Ina Williams, Brynawel, Pant-y-crug, Capel Seion (01970 880489)

*Ysgrifennydd*: John Leeding, Glannant, Taliesin, Machynlleth, SY20 8JH; glannant@googlemail.com (01970 832672)

Cyfraniadau ar gyfer y rhifyn nesaf erbyn 12 Mehefin:

Mr Dewi G Hughes
Bod Hywel, Bow St
(01970 828026)
dewighughes@lineone.net

Mrs Marian B Hughes
14 Maes y Garn, Bow St
(01970 828662)
marian_hughes@btinternet.com